

Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cyllid am eu hadroddiad ar 'Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol'. Wrth inni symud ymlaen, bydd ystyriaethau mewn perthynas â'n pwerau treth datganoledig yn chwarae rôl gynyddol bwysig wrth ystyried y cyfleoedd ac ymateb i'r heriau a wynebwn yng Nghymru.

Bydd yn hanfodol cael gafael ar y data perthnasol ac atgyfnerthu ein cydberthynas â phartneriaid allweddol fel CThEM wrth inni benderfynu ar y ffordd ymlaen i Gymru. Mae amrywiadau rhwng treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol yn gysyniad cymharol newydd i'r DU, ac nid ydym ond megis dechrau deall yr effeithiau posibl ar ein cymunedau. Felly, rwy'n croesawu safbwyntiau'r Pwyllgor ar y mater hynod bwysig hwn.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

Argymhellion

Derbyn

Mae gan Lywodraeth Cymru gysylltiadau agos â dadansoddwyr ym mhob rhan o Lywodraeth y DU, gan gynnwys Is-adran Gwybodaeth, Dadansoddi a Deallusrwydd CThEM fel y nodir yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Caiff y cysylltiadau hyn eu hatgyfnerthu ymhellach drwy gyfarfodydd rheolaidd i drafod datblygiadau yng nghwmpas data trethi Cymru, a'r ffordd y caiff y data hynny eu cyflwyno a'u dadansoddi.

Bydd data o'r flwyddyn lawn gyntaf ers datganoli treth incwm (2019-20) ar gael yn raddol o haf 2021 ymlaen. Bydd set ddata fanwl ar gyfer y flwyddyn honno ar gael yn 2022. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda CThEM i gyflwyno a dosbarthu'r wybodaeth hon.

Ceir heriau o ran lefel y manylder a all fod ar gael ar gyfer ymchwil. Mae data trethi yn hynod sensitif ac mae cyfyngiadau ar rannu data er mwyn cynnal cyfrinachedd trethdalwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CThEM i sicrhau y gellir darparu data mewn ffordd hwylus a defnyddiol i ymchwilwyr, gan gynnwys cyfrinachedd hwnnw ar yr un pryd.

Mae un maes ymchwil y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag ef ar y cyd ag Is-adran Gwybodaeth, Dadansoddi a Deallusrwydd CThEM yn ymwneud ag amcangyfrif effeithiau ymddygiadol ymwahaniad trethi, er mwyn rhoi gwell cyfrif am wahaniaethau posibl mewn cyfraddau treth ar lefel is na'r DU. Mae'r gwaith technegol hwn yn adeiladu ar y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r

Pwyllgor ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Mae hefyd yn adlewyrchu'r dulliau sefydledig y mae CThEM a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi'u datblygu dros y blynyddoedd i fodelu effaith newidiadau mewn polisi treth incwm ar referniw.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

Derbyn

Er mwyn cynnal astudiaeth hydredol, byddai angen datblygu set ddata treth incwm newydd.

Byddai hyn yn darparu gwybodaeth am drethdalwyr wedi'i chysylltu ar draws blynyddoedd yn hytrach na'r setiau data trawstoriadol ar gyfer un flwyddyn a gaiff eu llunio'n fwy cyffredin.

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraeth yr Alban, wedi ymgysylltu â CThEM ynglŷn â'r angen posibl am set ddata hydredol, er mwyn gallu gwneud gwaith ymchwil mwy soffistigedig i effaith ymddygiadol newidiadau treth incwm a gwahaniaethau posibl yn y DU. Mae opsiynau posibl yn cael eu datblygu mewn perthynas â'r cynnig hwn. Mae hwn yn ddarn technegol o waith a bydd angen iddo ystyried ffyrdd posibl o ddefnyddio set ddata o'r fath er mwyn sicrhau ei bod ar ffurf briodol i fod mor fuddiol â phosibl i ymchwilwyr y Llywodraeth ac ymchwilwyr nad ydynt yn gweithio i'r Llywodraeth. Mae'n debygol y daw set ddata o'r fath yn fwy defnyddiol yn y dyfodol, yn enwedig petai cyfraddau treth incwm yn ymwahanu rhwng Cymru a gweddill y DU. Fel adnodd dadansoddi cymhleth newydd, mae'n debygol y bydd y gwaith datblygu sy'n ofynnol i lunio set ddata o'r fath yn cymryd peth amser. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati'n gynnar i ddechrau ystyried y dichonoldeb ar y cyd â CThEM.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

Derbyn

Ar y cyfan, mae'r gwaith o ddatblygu arolygon newydd a gwella data sy'n benodol i Gymru yn gofyn am lawer o adnoddau ac fel arfer yn cymryd llawer o amser.

Defnyddir cyllideb Gwella Ystadegau Economaidd i ariannu gwelliannau mewn tystiolaeth arolygon mewn perthynas â marchnad lafur Cymru a'r economi ehangach. Caiff y gyllideb hon, sy'n werth £1.2 miliwn yn 2020-21, ei defnyddio i roi hwb i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a chomisiynu dangosyddion allbwn economaidd byrdymor i Gymru.

Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar wella ystadegau masnach yn unol â'r angen a nodwyd yn adroddiad *Y Polisi Masnach: Materion*

Cymru (2018). Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu arolwg masnach newydd a chafodd ei ganlyniadau cyntaf eu cyhoeddi'n ddiweddar fel ystadegau arbrofol¹.

Bydd atgyfnerthu arolygon sydd eisoes yn bodoli a chyflwyno rhai newydd yn darparu gwybodaeth ychwanegol i wella ystadegau economaidd ac ystadegau'r farchnad lafur. Byddwn yn parhau i ystyried y posibilrwydd o atgyfnerthu arolygon ystadegol eraill lle y gallant ychwanegu gwerth at y sylfaen dystiolaeth. Fodd bynnag, ar gyfer gwaith dadansoddi sy'n gysylltiedig â threthi, mae'n bosibl nad arolygon yw'r ffynhonnell ddata fwyaf defnyddiol o reidrwydd. Mae casglu gwybodaeth gywir a chynhwysfawr am incwm drwy gynnal arolygon ystadegol yn cymryd llawer o adnoddau. Mae hefyd yn anodd iawn cwmparu'r rhai hynny sydd ym mhen uchaf y dosbarthiad incwm yn ddigonol. At hynny, ceir tueddiad i bobl sydd ar incwm uchel iawn beidio â chofnodi eu hincwm yn llawn². Un o'r ychydig negeseuon cyson o'r sylfaen dystiolaeth ar effaith ymddygiadol amrywiadau treth yw mai'r bobl ar incymau uchel yw'r mwyaf tebygol o weld effaith hyn. Hefyd, mae nifer bach o drethdalwyr ar incwm uchel iawn yn cyfrannu cyfran fawr o refeniw treth incwm, felly mae eu hymddygiad o ddiddordeb arbennig yn y cyd-destun hwn.

Am y rhesymau a nodir uchod, mae data gweinyddol yn tueddu i fod yn fwy defnyddiol ar gyfer astudio effaith amrywiadau treth incwm. Y ffynhonnell ddata fwyaf defnyddiol yn y DU yw'r Arolwg o Incwm Personol a gynhelir gan CThEM. Sampl o ddata treth gweinyddol yw'r arolwg hwn, ac mae'n cyfuno gwybodaeth am drethi pobl o'r system talu wrth ennill a'r system Hunanasesu i greu sampl fawr wedi'i hanonymyddio o'r sylfaen treth incwm. Y set ddata hon, ynghyd ag alldro cyfraddau treth incwm Cymru, fydd y data allweddol ar dreth incwm sy'n benodol i Gymru. Bydd yr Arolwg o Incwm Personol yn well pan fydd yn ymdrin â 2019-20 a blynyddoedd dilynol, gan y bydd yn cynnwys baner Cymru i adnabod y trethdalwyr hynny a dalodd gyfraddau Cymru. Disgwylir i'r Arolwg ar gyfer 2019-20 gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2022.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gyda CThEM ar y fethodoleg a'r fformat ar gyfer cyhoeddi alldro cyfraddau treth incwm Cymru am y tro cyntaf, a ddisgwylir yn ystod haf 2021. Hefyd, ceir gweithgor rheolaidd gyda CThEM, Llywodraeth yr Alban, Comisiwn Cyllidol yr Alban, a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i fwrw ymlaen â gwelliannau i setiau data incwm a lledaenu ystadegau.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

Derbyn

¹ I gael rhagor o fanylion, gweler: <https://llyw.cymru/arolwg-masnach-cymru-2018>

² Gweler, er enghraifft, Burkhauser, Richard V. a Hérault, Nicolas a Jenkins, Stephen P. a Wilkins, Roger (2017) Survey under-coverage of top incomes and estimation of inequality: what is the role of the UK's SPI adjustment? Fiscal Studies. ISSN 0143-5671

Mae cynnal cywirdeb y boblogaeth o drethdalwyr Cymreig yn hanfodol i'r gwaith o weinyddu CTIC. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru a CThEM yn cynnwys mesurau perfformiad a ddyluniwyd i sicrhau ffocws parhaus ar adnabod a chynnal cofnod cywir a chadarn o'r boblogaeth o drethdalwyr Cymreig. Mae'r CLG yn cynnwys cylch rheolaidd a gynlluniwyd o weithgarwch, gan gynnwys sganiau data CThEM, er mwyn sicrhau cywirdeb y data.

Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn glir nad oes set ddata bendant o drethdalwyr Cymreig y gellir ei defnyddio i farnu'r dulliau adnabod. Nid y sgan cod C, sef y sail ar gyfer y gyfradd gwallau codio treth y cyfeirir ati yn yr argymhellion, yw'r gweithgarwch sicrwydd mwyaf effeithiol mewn perthynas ag adnabod trethdalwyr sy'n symud ar draws y ffin. Mae'r sgan cod C yn edrych i weld a yw cyflogwyr yn cymhwyso'r cod C a roddwyd yn gywir, yn hytrach nag a yw CThEM wedi adnabod trethdalwyr Cymreig a symudiad ar draws y ffin yn gywir. Er mwyn i god C fod wedi'i roi, byddai angen i'r unigolyn fod wedi cael ei adnabod fel trethdalwr Cymreig. Dangosodd y sgan cod C diweddaraf gyfradd gwallau o lai na 3%.

Mae proses lle y bydd CThEM yn cynnal ymarfer i gymharu cofnodion treth Cymru â ffynonellau data trydydd parti yn adnodd gwell ar gyfer cadarnhau'r trethdalwyr Cymreig a gaiff eu hadnabod gan CThEM, ac yn cynnig sicrwydd ychwanegol bod y manylion cyfeiriad sydd gan CThEM yn gyfredol. Cynhaliwyd yr ymarfer hwn cyn i CTIC gael eu rhoi ar waith, gan alluogi CThEM i gadarnhau'r cyfeiriadau a oedd ganddo ar gyfer 98-99% o'r boblogaeth drwy ddefnyddio ffynonellau allanol. Bydd ymarferion pellach yn parhau i gael eu cynnal yn rheolaidd. Hefyd, nid yw'r 1-2% o gyfeiriadau nas cadarnhawyd yn yr ymarfer hwn yn "anghywir" o reidrwydd. Yn syml, mae'r gwahaniaethau'n tynnu sylw at achosion lle na chaiff y cofnodion cyfeiriad eu cadarnhau gan setiau data trydydd parti. Mewn rhai achosion, gall y cofnod cyfeiriad sydd gan CThEM fod yn fwy cyfredol na'r data trydydd parti.

Mae hefyd yn bwysig pwysleisio y caiff y gweithgareddau hyn eu harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol er mwyn sicrhau digonolrwydd rheolau a gweithdrefnau y mae CThEM wedi eu rhoi ar waith, o ganlyniad i ddarpariaethau cyfraddau Cymru, er mwyn sicrhau y caiff treth incwm a godir ar gyfraddau a bennir o dan y darpariaethau hynny ei hasesu a'i chasglu'n briodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

Derbyn

Yn ei Fframwaith Polisi Trethi, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei dull o ddatblygu ei pholisïau trethi fel rhan o'r gwaith o gyflawni ei hagenda bolisi ehangach, gan ddilyn yr egwyddorion canlynol:

- Codi referniw i gyllido gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl;
- Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn enwedig cefnogi swyddi a thwf;
- Bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml;
- Cael eu datblygu drwy gydweithio a chyfranogi;
- Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

Drwy wneud hyn, nod Llywodraeth Cymru yw tyfu'r economi a sicrhau cymaint â phosibl o referniw trethi, gan gydbwyso hyn ag ystyried yr effaith ar drethdalwyr a'r defnydd o drethi fel ffordd o ddatblygu tegwch a chydaddoldeb.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

Derbyn mewn egwyddor.

Yn yr un modd ag argymhelliad 5, mae sicrhau y caiff ysgogiadau trethi datganoledig eu hystyried fel rhan annatod o'r fframwaith ar gyfer datblygu polisiâu yn y dyfodol yn elfen allweddol o fframwaith polisi trethi Llywodraeth Cymru. Mae angen ystyried materion yn ymwneud â thargedu grwpiau penodol er mwyn hybu referniw trethi yng nghyd-destun yr amcanion ehangach o wneud Cymru'n wlad deg a chynhwysol sy'n darparu ar gyfer ei holl ddinasyddion, heddiw ac yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

Derbyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried dylanwad ffactorau heblaw treth ac, yn benodol, unrhyw newidiadau i'r rhain, wrth wneud ymchwil i ymateb ymddygiadol trethdalwyr sy'n deillio o amrywiadau treth incwm ar draws ffin Cymru-Lloegr.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

Derbyn

Mae pob un o gyfraddau treth incwm y DU yng Nghymru wedi cael eu gostwng 10 ceiniog, gan roi lle i Lywodraeth Cymru bennu cyfradd i Gymru ym mhob band. Mae

hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i amrywio'r tair cyfradd yn unigol gan gyfyngu ar y risg ariannol y bydd yn ei hwynebu, gan fod y sylfaen drethu'n dal i gael ei rhannu â Llywodraeth y DU.

Ceir fframwaith gwahanol ar gyfer datganoli treth incwm yn yr Alban, sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth yr Alban ond hefyd yn golygu ei bod yn wynebu llawer mwy o risg ariannol. Mae'r holl sylfaen drethu nad yw'n deillio o ddifidendau na chynilion wedi'i datganoli a gall Llywodraeth yr Alban bennu ei chyfraddau a'i bandiau ei hun. O ganlyniad i hynny, mae cyllideb Llywodraeth yr Alban yn agored i fwy o amrywiadau yn sylfaen drethu'r Alban, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o newidiadau ymddygiadol.

O ystyried y ffordd y mae treth incwm wedi'i datganoli yng Nghymru, mae hyn yn golygu bod effeithiau ymddygiadol yn sgil newidiadau i gyfraddau yn llai tebygol o gael effaith ar gyllideb Cymru nag y byddent o dan fodel yr Alban.

Mae'r mater hwn yn berthnasol mewn egwyddor ar raddfa lawer ehangach. Gall newidiadau i un dreth gael effaith economaidd ar refeniw a gesglir drwy amrywiaeth o drethi eraill. Cyhyd ag mai dim ond rhai trethi penodol sydd wedi'u datganoli, neu wedi'u datganoli'n rhannol, bydd newidiadau i drethi datganoledig bob amser yn arwain at effeithiau nad ydynt wedi'u cyfyngu i gyllidebau datganoledig yn unig. Mae'r un peth yn wir am newidiadau i drethi heb eu datganoli a chyllidebau heb eu datganoli. Er enghraifft, gall gostwng y dreth trafodiadau tir gynyddu nifer y trafodiadau eiddo a, thrwy hynny, gynyddu gwariant yn yr economi. Os felly, byddai derbyniadau TAW yn cynyddu yng Nghymru ond byddai'r refeniw ychwanegol yn mynd i Lywodraeth y DU. Yn ymarferol, mae effaith yr anghymesureddau hyn ar gymelliadau cyllidol yn debygol o fod yn fach.

Mae datganoli treth incwm yn nodwedd ddiweddar iawn yn nhirwedd gyllidol y DU o hyd. Mae'r alldro diweddar a'r alldro rhagamcanol ar gyfer yr Alban wedi dangos y gallai fod gwahaniaethau mawr mewn twf refeniw rhwng gwahanol rannau o'r DU. Hyd yma, mae'r gwahaniaethau rhwng yr Alban a gweddill y DU i'w gweld fwyaf ym mhen uchaf y dosbarthiad incwm. Mae'r risg sy'n deillio o hyn yn llai i Lywodraeth Cymru am ei bod ond yn gyfrifol am 10 ceiniog o'r gyfradd 45 ceiniog i dalwyr y gyfradd ychwanegol a bod ganddi addasiad i'r grant bloc ar wahân ar gyfer yr elfen hon.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i asesu perfformiad y trefniadau presennol yng Nghymru, gan sicrhau cydbwysedd priodol rhwng ysgogiadau trethi datganoledig a'r risg gyllidol a wynebir.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

Derbyn

Yn yr un modd ag argymhellion 5 a 6, mae Strategaeth Dreth Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr egwyddor allweddol "Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn

enwedig cefnogi twf a swyddi". Bydd y cydbwysedd rhwng buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, cystadleurwydd economi Cymru a'r effaith ar drethdalwyr wrth wraidd penderfyniadau, yn union fel y defnyddiwn drethi fel ffordd o ddatblygu tegwch a chydraddoldeb, gan ein galluogi i fynd i'r afael â materion cymdeithasol, gan gynnwys cyfiawnder a sicrwydd economaidd.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

Derbyn mewn egwyddor

Mae modelau CThEM ar gyfer llunio rhagolygon treth incwm, sy'n sail i ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, eisoes yn cynnwys addasiadau i ystyried y cymelliadau i gorffori a gynigir gan gyfraddau treth gwahaniaethol. Caiff yr addasiadau hyn eu cymhwyso at y rhagolygon o gyfraddau treth incwm Cymru a gyhoeddir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Mae dadansoddwyr Llywodraeth Cymru yn rhan o'r cyfarfodydd i drafod yr addasiadau hyn ac elfennau eraill o'r rhagolwg treth incwm. Byddai unrhyw waith ychwanegol ar effaith bosibl corffori'n fwyaf tebygol o gael ei gomisiynu drwy CThEM. Byddai'r setiau data manwl sy'n ofynnol a materion yn ymwneud â chyfrinachedd trethdalwyr yn ei gwneud hi'n anodd i sefydliadau eraill wneud gwaith ymchwil yn effeithiol yn y maes hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

Derbyn

Er y byddai'n briodol ystyried y mater hwn ymhellach, dylid cydnabod nad nawr yw'r adeg briodol. Mae datganoli treth incwm yng Nghymru yn beth newydd iawn o hyd, gan mai newydd ddod i ben y mae'r flwyddyn weithredol gyntaf (2019-20). Oherwydd y terfynau amser a ganiateir ar gyfer ffurflenni treth, ni ddisgwylir i'r alldro o flwyddyn gyntaf cyfraddau treth incwm Cymru gael ei gyhoeddi tan yr haf nesaf. Yn seiliedig ar yr alldro hwnnw, bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn deall ymhellach sut mae'r system bresennol yn gweithredu. O ganlyniad i hynny, mae'r trafodaethau hyd yma â Llywodraeth y DU ynghylch datganoli treth incwm wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y trefniadau presennol yn gweithio'n briodol.

Byddai datganoli'r agwedd hon ar dreth incwm yn rhoi cyfle i'r llywodraethau datganoledig leihau'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau treth ar wahanol ffurfiau incwm. Fodd bynnag, byddai gwneud hynny'n creu gwahaniaeth yn y gyfradd dreth ar incwm difidend rhwng Cymru a Lloegr. Ystyrir bod y ffurf incwm hon yn gymharol fwy symudol o gymharu â'r mathau o dreth incwm sydd eisoes wedi'u datganoli i Gymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

Derbyn

Mae Fframwaith Strategaeth Dreth Cymru yn cynnwys gofyniad i godi referniw “mor deg â phosibl” a chyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

Yn ogystal â hynny, daw'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Nod y ddyletswydd hon yw sicrhau gwell canlyniadau i bobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys unigolion ar incwm isel a'r rhai ar fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm, fel credyd cynhwysol.

Bydd y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn sicrhau y bydd unrhyw strategaethau treth neu benderfyniadau polisi yn y dyfodol yn ystyried y dystiolaeth a'r effeithiau posibl ar bobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Wedyn, gellir defnyddio'r wybodaeth hon i ddylunio polisiau yn briodol a helpu i gymryd camau a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl.

Cyn i'r Ddyletswydd ddod i rym, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ystyried sut mae ei pholisïau, yn enwedig o ran trethi, yn effeithio ar y bobl ar yr incwm isaf mewn cymdeithas. Un o'i nodau yw gwneud treth yn fwy graddoledig, gan sicrhau bod y bobl fwyaf cefnog yn talu symiau cymharol fwy o dreth na'r rhai sy'n llai ffodus mewn cymdeithas ac ar incymau is. Mae gan Lywodraeth Cymru eisoes fodelau dadansoddi sy'n helpu i wella'r dystiolaeth a mesur yr effeithiau tebygol er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ar y sail honno. Bydd y rhain yn bwysicach fyth ar ôl i'r ddyletswydd hon ddod i rym.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.